

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

Y CasglwrArgraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd**CYMDEITHAS BOB OWEN**Tâl aelodaeth:
£5 y flwyddyn (lonawr-Rhagfyr)
i'w anfon at y Trysorydd**SWYDDOGION***Cadeirydd:*Dr Brynley F. Roberts
Hengwrt, Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 1HB
(01970) 623577*Ysgrifennydd:*Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174*Trysorydd:*Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235*Trefnydd Hysbysebion:*Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120*Golygydd:*Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
(01678) 540652*Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:*Y Swyddogion
Dr Huw Edwards
Dr Rhidian Griffiths
Dr R. Geraint Gruffydd
Dafydd Glyn Lloyd Jones
Huw Ceiriog Jones
Richard H. Lewis, Gwilym Tudur
Y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam
Huw WilliamsCyhoeddwr *Y Casglwr* gyda
chymorth ariannol
Cyngor y Celfyddydau.**Y RHIFYN NESAF**Erthyglau a mân
hysbysebion i'r **Golygydd**
erbyn **30 MAI**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r

Trefnydd Hysbysebion
erbyn **23 MAI**Copi o'r hysbyseb i'r
Golygydd erbyn **30 MAI****Gwasg
Gwynedd**Cibyn, Caernarfon
Gwynedd LL55 2BD**Argraffwyr a
Chyhwyddwyr**

Ffôn: (01286) 674486

**YSGOL UNDYDD
CYMDEITHAS BOB OWEN****Dydd Sadwrn, 17 Mai 1997**
yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan

Am y tro cyntaf bydd **Cymdeithas Bob Owen** ac **Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin, Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru** yn cynnal Ysgol Undydd ar y cyd. Pawb i ymgynnull yn yr Amgueddfa am **10 o'r gloch y bore** ar gyfer te/coffi. Yn ystod y dydd ceir darlithoedd ar agweddau o fywyd a gwaith **Cadrawd a Ffrancis Payne** gan Bryn F. Roberts a Trefor Owen. Byddwn hefyd yn cael ein tywys o gwmpas y stôr gwrthrychau yn ogystal â'r adeiladau allanol, gan ganolbwyntio ar yr adeiladau newydd. Y mae croeso i'r rhai sy'n mynychu'r Ysgol Undydd gael cinio yn ffreutur yr Amgueddfa. Cynhelir cyfarfod blynyddol **Cymdeithas Bob Owen** ddiwedd y prynhawn.

Enwau i law yr Ysgrifennydd (01970) 623174, neu'r Trysorydd (01970) 820235
erbyn **9 Mai 1997**.Codir tâl bychan o **ddwy bunt** ar gyfer te/coffi a bisgedi.**Mynediad i'r Amgueddfa yn rhad ac am ddim.***(Parhad o'r dudalen flaen)*

Ni chafodd *Flame-bearers of Wales* na'r llyfr *The Matter of Wales* dderbyniad da o gwbl gan arbenigwyr yn hanes cynnar Cymru, yn ôl William Llewelyn Davies yn *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*, t.941.

Yn ddi-os roedd ymfflamychu dros genedlaetholdeb a chreu arwyr Cymreig heb fod yn gymeradwy gan y Sefydliad Prydeinig. Gwir hyn hyd yn oed yn niwedd yr ugeinfed ganrif. Gŵr o flaen ei oes, fel Owain Glyndŵr ei hunan, oedd Owen Rhoscomyl. Milwr i'r carn ydoedd ac un a osododd Gymreigrwydd, a pherthyn i Gymru, uwchlaw popeth arall. Beth ond cenedlaetholdeb oedd hynny?

**PIGION ERAILL
WRTH FYND HEIBIO**

Dengys *Calendar of the Grants of Probate and Letters of Administration T-Z*, 1920. Hastings, HMSO, 1920, t.150: Arthur Owen Vaughan. O Ddinas Powys, Morgannwg. Bu farw'n 49 Stryd Beaumont, Gorllewin Llundain, Lloegr. Ceir manylion eraill yn ogystal.

Yn y *North Wales Chronicle*, 24 Hydref 1919, t.6, col.3, ceir hanes ei gynhebrwng ar ddydd Sadwrn yn y Rhyl. Dyma rai ffeithiau: Milwr nodedig ac awdur cenedlaethol Cymreig a adwaenid yn dda wrth yr enw 'Owen Rhoscomyl'.

Cyfeiriodd Bryn Owen ato yn ei lyfr (gweler 'Llyfryddiaeth Detholedig' ar ddiwedd yr erthygl hon) fel un a oedd fel liffenant-gymrol yn y fyddin, yn frenhinwr ac o dan adain cenedlaetholdeb Prydeinig; ond darllener gweddill yr adroddiad o'i wasanaeth angladdol uchod: Dymuniad yr ymadawedig

oedd cael ei gladdu yn y Rhyl. Pam? Un o Dremerchion oedd ei nain.

Cludwyd y corff ar y trên o Lundain i'r Rhyl.

Cludwyd ar gerbyd trwy'r dref: 'Yn absennol ar yr arch roedd baner Siac yr Undeb. Gorchuddid yr arch â baner Y Ddraig Goch.'

Yn mynwent Eglwys Sant Tomos y'i claddwyd. Gofynnwyd am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni chafwyd o hyd i gôr a fedrai ganu yn y Gymraeg, a chafwyd gwasanaeth dwyieithog. Ymhlith y pleth-dorchau roedd yno un gan staff y *Western Mail* (bu'n golofnydd selog i'r newyddiadur) ac oddi wrth holl deulu Pant Philip, Llansteffan, Sir Benfro, gyda'r neges yn Gymraeg: 'Gyda chydymdeimlad ac er cof am ryfektor dewr a gwlatgarol, a hen gyfaill.'

Ie, hen gyfaill. Un a fynnodd fod yn Gymro. Chwilotaits ymhlith cylchgronau y cyfnod gan geisio taro ar adolygiad neu unrhyw beth a blediai achos Owen Rhoscomyl. Nis cefais. Hwyrach y carai ein darllenwyr fy ngoleuo ymhellach pahan na chafodd *Flame-bearers of the Welsh Nation* mwy na *The Matter of Wales* eu cymeradwyo gan feirniaid Hanes Cymru. Ond tybiaf mai cenedlaetholwr oedd Owen, un i'w osod o fewn terfynau ei oes, a diolch i'w nain, Ann Gill (Jones cyn priodi) o Dremerchion, un a gafodd ei alw'n 'Owen' ganddi ac a fu'n fodd ei droi at y gwaith o gynorthwyo Cymru, a chefnogi ei hachos yn enw cyfiawnder. Pan ddelo Cymru'n rhydd, ac iddi ei llywodraeth ei hunan, tybed a fydd Owen Rhoscomyl ar restr y rhai a frwydrodd drosti? Dim ond amser a ddengys.

Haecdda hynny. Cymro ydoedd. Ond hwyrach mai ei ddymuniad fyddai bedd un a goffeid yng nghalonau ei gyd-Gymry. Daeth. Gwnaeth ei ran. Er mwyn ei genedl. Ni fynfir ffys na ffwdan. Cymru oedd o bwys, a'i pharhad fel cenedl a'r iaith Gymraeg. Yr hyn a ddymunir heddiw, ac ar hyd y canrifoedd, gan filiynau fyrrd o Gymry hen ac ieuainc a fyn fod yn Gymry a dim arall.

**LLYFRYDDIAETH GRYN
DDETHOLEDIG**

DAVIES, W. Ll.: *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*, t.941. Gweler ffynonellau teyrngedau marwolaeth gwahanol newyddiaduron; hefyd *Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*, sef gwybodaeth ei ferch, t.169.

OWEN, Bryn: *Owen Roscomyl & The Welsh Horse*. Llyfrau Palace Cyf., 1990.

**NEWID
GOLYGYDD**

Efallai i rai ohonoch sylwi bod Golygydd newydd wedi cychwyn ar ei waith gyda'r rhifyn diwethaf o *Y Casglwr*.

Diolch i Richard Lewis am ei waith caled dros y blynyddoedd. Mae'n haeddu ymdddeoliad ond bydd yn parhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Pob dymuniad da i'r Golygydd newydd, Mel Williams, ar ei waith. Cofiwch y bydd pob cyfraniad gennyh chi, bach neu fawr, yn gwneud ei waith yn haws.